# Ydych chi'n cael trafferth talu eich rhent?


Os ydych yn cael trafferth talu eich rhent, yna mae'n bwysig i chi siarad gyda'ch landlord neu gymdeithas dai cyn gynted ag y gallwch. Rhowch wybod iddo m eich anawsterau a sut rydych yn bwriadu newid pethau er mwyn gwella'r sefyllfa. Efallai y bydd yn gallu eich helpu drwy gynnig estyniad i'r dyddiad talu. Wedi dweud hyn mae'n bwysig deall pam eich bod yn cael trafferth talu eich rhent. Gallai eich incwm neu'ch treuliau fod wedi newid yn sydyn er gwaeth, neu rydych chi'n byw y tu hwnt i'r arian sydd ar gael i chi. Y naill ffordd neu'r llall bydd angen cynllun arnoch i'ch helpu. Mae Moneyhelper.org awgrymu 'Gall llunio cyllideb eich helpu i ddarganfod ble rydych chi'n gwario'ch arian a ble y gallech chi dorri'n ôl. Os yw'n debygol o fod yn broblem hirdymor, efallai mai ceisio cymorth ar unwaith fyddai'r ateb gorau. Cyn i faterion fynd allan o reolaeth.' (www.moneyhelper.org.uk/en/homes/renting/rent-arrears-problems-paying-your-rent)Mae ganddynt gynllunydd cyllideb defnyddiol i'ch helpu, sydd i'w weld yn www.moneyhelper.org.uk/en/everyday-money/budgeting/budget-planner

# Lleihau treuliau misol

I leihau eich treuliau misol gallwch wneud pethau fel gwirio eich bod ar y lleiafswm tariff ar gyfer eich biliau ynni a'ch tanysgrifiadau, a gwneud newidiadau i leihau eich treuliau cyffredinol ac felly gwneud eich rhent yn fwy fforddiadwy neu leihau cost eich siop fwyd wythnosol drwy gynllunio'ch prydau bwyd yn ofalus ac optio ar gyfer brandiau rhad yr archfarchnadoedd eu hunain wrth brynu bwyd, yn hytrach na'r brandiau drutach.

I gael awgrymiadau a syniadau ar arbed ynni a lleihau eich bil ynni, ewch i energysavingtrust.org.uk/energy-saving-budget/ neu www.simpleenergyadvice.org.uk i gael rhagor o gyngor, gwybodaeth am grantiau ynni yn y cartref a gostyngiadauOs hoffech fwy o wybodaeth am leihau cost eich siop fwyd yna cyfeiriwch at dudalen 10 o'r llyfryn hwn.

energy saving trust



Simple Energy Advice
GOVERNMENT ENDORSED ADVICE

UC Universal Credit

# Credyd Cynhwysol

"Os yw'ch amgylchiadau wedi newid a bod eich incwm wedi gostwng o ganlyniad, efallai y gallwch gael budd-daliadau i'ch helpu i dalu'ch rhent, fel elfen dai Credyd Cynhwysol.

Ond efallai na fydd eich taliad Credyd Cynhwysol yn talu'ch holl gostau tai. Mae hyn yn fwy tebygol os ydych yn byw mewn tai rhent preifat.

Os ydych chi'n hawlio Credyd Cynhwysol am y tro cyntaf, mae gan Gyngor ar Bopeth wasanaeth pwrpasol i'ch helpu chi. Ffoniwch 0800 024 1220. Am fwy o wybodaeth ac i ddod o hyd i'ch Cyngor ar Bopeth lleol ar eu gwefan"- (www.moneyhelper.org.uk/en/homes/renting/rent-arrears-problems-paying-your-rent)

# Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn

Os yw eich amgylchiadau wedi newid ac nad yw'r taliad Credyd Cynhwysol yn talu am gost eich costau tai "efallai y byddwch yn gallu hawlio Taliad Tai yn ôl Disgresiwn (DHP) gan eich cyngor lleol i dalu am y diffyg mewn rhent."

Dim ond ar ôl i chi gael eich taliad Credyd Cynhwysol cyntaf y gallwch wneud cais am DHP. Gallwch hefyd gwneud cais DHP os ydych yn cael Budd-dal Tai.

Er mwyn eich helpu i baratoi cyn i chi gael eich taliad cyntaf, gall ymgynghorydd Help i Hawlio eich helpu i ddarganfod a fydd eich taliad Credyd Cynhwysol yn talu am eich holl rent. Os na fydd, gallwch wneud cais am DHP trwy eich cyngor lleol os oes angen un arnoch chi." - (www.moneyhelper.org.uk/en/homes/renting/rent-arrears-problems-paying-your-rent)

I wneud cais am Daliad Tai yn ôl Disgresiwn, gallwch wneud hynny ar-lein drwy fynd i cy.powys.gov.uk/article/4816/Taliadau-Tai-yn-ol-Disgresiwn

Powys

# Ydych chi'n cael trafferth talu eich morgais?

**'Cam 1 – Cysylltu â'ch benthyciwr'**




'Mae rhaid i fenthycwyr eich trin yn deg ac ystyried unrhyw gais a wnewch i newid y ffordd rydych yn talu'ch morgais.

- Cynigiwch ad-dalu'r hyn y gallwch ei fforddio wrth drafod eich opsiynau â'ch benthyciwr - mae'n well parhau i dalu rhywfaint o arian yn ôl na thalu dim a bydd yn helpu i leihau eich ôl-ddyledion.
- Ystyriwch sut a phryd y gallwch ddychwelyd i wneud eich taliadau misol llawn.
- Meddyliwch pryd y gallwch fforddio talu mwy i wneud taliadau sy'n fwy na'ch taliad misol arferol i dalu unrhyw ôl-ddyledion.

Gan ddibynnu ar eich amgylchiadau gallai eich benthyciwr hefyd wneud awgrymiadau ar eich rhan, er enghraifft ymestyn eich tymor morgais.

Peidiwch ag oedi - mae'n bwysig cysylltu â'ch benthyciwr cyn gynted â phosibl.'

'Cam 2 – Gwirio a oes gennych yswiriant

Gall Yswiriant Diogelu Taliadau Morgais, sy'n cael ei alw hefyd yn Yswiriant Damweiniau, Salwch a Diweithdra, eich helpu â'ch ad-daliadau morgais os yw eich incwm wedi lleihau oherwydd damwain, salwch neu os ydych wedi colli'ch gwaith.

Efallai gwnaethoch drefnu'r yswiriant pan gawsoch eich morgais – edrychwch drwy waith papur eich morgais a holwch eich benthyciwr eto neu'r brocer a ddefnyddiwyd gennych pan drefnoch y morgais.'
(www.moneyhelper.org.uk/en/homes/buying-a-home/mortgage-arrears-if-you-have-problems-paying-your-mortgage)

cam 3- Meddyliwch am leihau eich treuliau misol - mae cyngor ar y dudalen flaenorol am hyn.

# Ydych chi'n cael trafferth talu eich treth cyngor?

'Os ydych chi'n derbyn y budd-daliadau isod, gallwch wneud cais i asesu'r hyn sydd gennych hawl iddo ac i addasu eich bil treth y cyngor:



- Lwfans Ceisio Gwaith
- Lwfans Cyflogaeth a Chymorth
- Credyd Pensiwn
- Cymhorthdal Incwm

Neu

- Rydych yn aelwyd sydd ar incwm isel.

I weld a oes gennych hawl i ostyngiad a faint, byddwn yn edrych ar eich incwm wythnosol ac a oes gennych unrhyw gyfalaf. Bydd cyfalaf yn cynnwys cynilion ac eiddo sy'n berchen i chi.

Bydd cyfanswm y gostyngiad hefyd yn dibynnu ar ydych chi o oedran gweithio neu'n bensiynwr.

Ni chewch ostyngiad os ydych chi:

- dan 65 oed gyda chyfalaf o £16,000 neu fwy
- dros 65 oed gyda chyfalaf o £16,000 neu fwy (oni bai eich bod chi neu'ch partner yn derbyn rhan Credyd Gwarant y Credyd Pensiwn.

Os ydych chi'n derbyn Credyd Cynhwysol, bydd angen i chi wneud cais i leihau eich treth y cyngor os nad yw eich bil treth y cyngor eisoes wedi'i addasu i ystyried hynny.'

Y ffordd gyflymaf o hawlio yw llenwi'r ffurflen gais ar-lein trwy
cy.powys.gov.uk/article/5066/Gostyngiad-yn-Nhreth-y-Cyngor

Efallai bod rhesymau eraill pam y gallech fod yn gymwys i gael gostyngiad yn y dreth gyngor, gallwch ddarganfod trwy ddefnyddio cyfrifiannell Llywodraeth Cymru ar y dudalen we ganlynol-
llyw.cymru/talu-llai-o-dreth-gyngor

Powys

# Ydych chi'n cael trafferth talu eich biliau dŵr?

IOs ydych chi'n talu eich bil dŵr i gwmni Dŵr Cymru efallai y gallant helpu i wneud eich biliau'n fwy fforddiadwy. Os nad ydych mewn dyled gyda'r cwmni ar hyn o bryd, gallwch ledaenu cost eich bil i daliadau mwy fforddiadwy 6 misol / misol / wythnosol. Efallai y gallwch chi arbed arian drwy osod mesurydd Dŵr. Gallwch hefyd ofyn am egwyl talu tymor byr i leihau neu i ohirio taliadau dros dro. Os byddwch yn derbyn budd-daliadau, neu os oes gennych incwm isel gall rhai o Gynlluniau eraill Dŵr Cymru eich helpu chi - Sganiwch y codau QR i ddarllen mwy am y gwahanol gynlluniau sydd ar gael:

## Tariff HelpU

Mae tariff HelpU yn helpu cartrefi incwm isel trwy osod uchafswm ar y swm sy'n raid i chi dalu am eich dŵr. www.dwrcymru.com/cy-gb/support-with-bills/helpu-tariff

## Dŵr Uniongyrchol

Os ydych chi mewn caledi ariannol ac mewn dyled gyda Dŵr Cymru, efallai y bydd Water Direct yn helpu drwy dalu eich taliadau dŵr a'ch dyledion trwy eich budd-daliadau. Mae hyn yn golygu y bydd eich ôl-ddyledion yn lleihau'n raddol, gan eich helpu i gael rheolaeth dros eich cyllid. www.dwrcymru.com/cy-gb/support-with-bills/water-direct-scheme

## Tariff WaterSure

Os oes gennych fesurydd eisoes, neu os ydych wedi gofyn am un, mae cynllun WaterSure yn gosod uchafswm ar y swm y mae'n rhaid i chi ei dalu am eich dŵr. I fod yn gymwys, rhaid i chi fod yn derbyn budd-dal neu gredyd treth cymwys a naill ai bod â 3 neu fwy o blant o dan 19 oed sy'n byw yn eich cartref y gallwch hawlio Budd-dal Plant amdanyn nhw, neu bod â rhywun ar eich aelwyd sydd â chyflwr meddygol sy'n gofyn am ddefnydd sylweddol o ddŵr ychwanegol.www.dwrcymru.com/cy-gb/support-with-bills/watersure-tariff

**Siaradwch ag Ymgynghorydd Dŵr Cymru am Help i leihau eich bil Dŵr ar 0800 052 0145 8am i 6pm o ddydd Llun i ddydd Gwener a 9am i 1pm ar ddydd Sadwrn**

Os ydych fel arfer yn talu eich bil dŵr i Hafren Dyfrdwy efallai y byddan nhw yn gallu helpu i wneud eich biliau yn fwy fforddiadwy hefyd! Maen nhw hefyd yn cynnig y Cynllun Tariff WaterSure a WaterSure Direct ac os ydych chi'n Feddiannydd sengl efallai y byddwch yn gymwys i gael Tariff Is. Gallwch ddysgu mwy drwy ymweld â www.hdcymru.co.uk/my-account/help-when-you-need-it/help-with-paying-your-bill/ . Maen nhw hefyd yn darparu

## Cynllun Here2Help

Gall y cynllun hwn gynnig biliau dŵr i unrhyw gwsmer Hafren Dyfrdwy sydd ag incwm o lai nag £16,480 ar yr aelwyd. Does dim angen i chi fod ar ei hôl hi gyda'ch biliau neu ar fod fudd-daliadau i wneud cais, ac mae cymhwysedd yn seiliedig ar asesiad o'ch incwm. Gallwch ddarganfod mwy trwy sganio'r cod QR gyferbyn neu fynd i www.hdcymru.co.uk/my-account/help-when-you-need-it/help-with-paying-your-bill/here-to-help-scheme/

**Siaradwch ag Ymgynghorydd Hafren Dyfrydwy i gael Help leihau eich bil Dŵr trwy ffonio 0330 678 0679 o ddydd Llun i ddydd Gwener: 8am i 8pm a dydd Sadwrn: 9am i 3pm**

# Costau petrol a diesel yn eich poeni?

# Chwiliwch am y gwerth gorau am arian



Gyda chost tanwydd yn uchel iawn ar hyn o bryd, rydym i gyd yn edrych o gwmpas am y bargeinion gwerth gorau wrth brynu ein petrol a'n Diesel, Yn ffodus i ni mae GoCompare wedi arbed rhywfaint o waith bôn braich i ni ac wedi darparu cyfrifiannell defnyddiol i ddod o hyd i'r bargeinion gorau yn eich ardal. Y cyfan sydd angen i chi ei wneud yw dewis y math o danwydd mewnbynnu eich cod post! Gallwch ddod o hyd i'r gyfrifiannell ar www.gocompare.com/motoring/guides/petrol-prices/

## Awgrymiadau ar fod yn fwy effeithlon o danwydd

1. Tynnwch bwysau gormodol o'ch cerbyd, pethau fel rac ar y to, pethau diangen yn y bŵt, hyd yn oed pram eich plentyn, pan nad oes ei angen.
2. Sicrhewch fod eich car yn cael ei gynnal a'i gadw a'i wasanaethu'n rheolaidd, hefyd sicrhewch fod pwysau'r awyr yn eich teiars ar y lefel gywir.
3. Cynlluniwch eich teithiau o flaen llaw, er mwyn osgoi gyrru ymhellach na'r angen, hefyd ystyriwch gynllunio'ch taith o amgylch yr amseroedd traffig prysur.
4. Gwisgwch yn addas ar gyfer y tywydd, ceisiwch osgoi defnyddio'r peiriant aerdymheru gan y gall hyn ddefnyddio mwy o danwydd. Yn yr un modd, ystyriwch os oes angen i chi ddefnyddio trydanau fel seddi wedi'u cynhesu ac ati.
5. Gwnewch eich ymchwil a llenwch yn y lle sydd â'r costau tanwydd rhataf yn eich ardal chi.

## Cronfa Cymorth Dewisol (DAF)



"Mae'r Gronfa Cymorth Dewisol yn cynnig dau grant gwahanol nad oes angen i chi eu talu yn ôl.

Taliadau Cymorth mewn Argyfwng (EAP)

Grant i helpu â chostau hanfodol, megis bwyd, nwy, trydan, dillad neu deithio mewn achos o argyfwng os ydych:

- yn wynebu caledi ariannol difrifol
- wedi colli eich swydd
- wedi gwneud cais am fudd-daliadau ac yn aros am eich taliad cyntaf

Ni allwch ei ddefnyddio i dalu biliau parhaus nad ydych yn gallu fforddio eu talu.

Taliadau Cymorth i Unigolion (IAP)

Grant i'ch helpu chi, neu rywun yr ydych yn rhoi gofal iddo, i fyw'n annibynnol yn ei gartref neu eiddo yr ydych chi neu'r unigolyn yn symud iddo.

Beth y gallwch ddefnyddio'r grant ar ei gyfer

Gellir defnyddio'r grant hwn i gael:

- oergell, popty neu beiriant golchi a 'nwyddau gwyn' eraill
- dodrefn i'r cartref megis gwelyau, soffas a chadeiriau'
  Ceisiwch ddarganfod a ydych yn gymwys i dderbyn yr ymweliad taliadau hyn llyw.cymru/cronfa-cymorth-dewisol-daf

# Cymorth gan y Llywodraeth

## £150 Ad-daliad Treth Cyngor

Taliad “costau byw” o £150 i dalwyr Treth y Cyngor sy'n byw mewn eiddo bandiau A i D, a holl dalwyr Treth y Cyngor sy'n derbyn Gostyngiad Treth y Cyngor.

## £400 Cynllun Cymorth Biliau Ynni

Bydd cwsmeriaid ynni domestig yn cael grant o £400 i helpu gyda chost eu biliau ynni.

## Taliad Costau Byw o £650 i’r Rhai ar Fudd-Daliadau

Taliad o £650 ar gyfer hawlwyr budd-dal lles prawf modd. Mae hyn yn cynnwys pob cartref sy’n derbyn **Credyd Cynhwysol, Lwfans Ceisio Gwaith yn Seiliedig ar Incwm, Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn Seiliedig ar Incwm, Cymhorthdal Incwm, Credyd Treth Gwaith, Credyd Treth Plant, Credyd Pensiwn.**

## Taliad Costau Byw o £300 i Bensiynwr

Taliad untro o £300 i aelwydydd pensiynwyr i helpu i dalu costau cynyddol ynni y gaeaf hwn. Bydd y taliad hwn yn mynd i aelwydydd pensiynwyr sy'n derbyn y **Taliad Tanwydd Gaeaf** a bydd yn cael ei dalu ar yr un pryd ym mis Tachwedd/Rhagfyr.

## £150 Taliad Costau Byw i'r Anabl

Bydd pobl sy'n derbyn **Lwfans Byw i'r Anabl, Taliad Annibyniaeth Bersonol, Lwfans Gweini, Budd-daliadau Anabledd yr Alban, Taliad Annibyniaeth y Lluoedd Arfog, Lwfans Gweini Cyson ac Atodiad Symudedd Pensiwn Rhyfel** yn derbyn y cymorth fel taliad untro ym mis Medi.

# Cyllidebu ymlaen llaw - Credyd Cynhwysol

'Efallai y gallwch gael benthyciad fel rhan o'ch Credyd Cynhwysol os ydych chi angen talu costau penodol - 'blaenswm cyllidebu' yw'r enw ar hyn.

Os ydych chi'n cael blaenswm cyllidebu, fel arfer byddwch yn cael taliadau Credyd Cynhwysol gostyngol hyd nes y byddwch wedi talu'r benthyciad yn ôl. Fel arfer bydd hyn dros 12 mis.

Gallwch wneud cais am flaenswm cyllidebu i dalu am bethau fel:



- eitem unigol – e.e. prynu oergell newydd i gymryd lle hen un sydd wedi torri
- costau annisgwyl – e.e. bil annisgwyl
- costau cysylltiedig â gwaith – e.e. prynu gwisg neu gelfi
- atgyweiriadau yn eich cartref
- costau teithio
- costau mamolaeth
- costau angladd
- costau symud neu flaendal rhent
- eitemau hollbwysig, fel dillad

Os ydych chi wedi gwneud cais am Gredyd Cynhwysol ond heb gael eich taliad cyntaf eto, mae angen i chi gael taliad ymlaen llaw yn hytrach na blaendal cyllidebu.'

'Os nad ydych chi angen yr arian ar gyfer costau cysylltiedig â gwaith, fel tocynnau trên i gyfweliadau swydd, bydd angen i chi fod wedi hawlio unrhyw un o'r budd-daliadau hyn am 6 mis neu fwy:

- Credyd Cynhwysol
- Lwfans Ceisio Gwaith sy'n dibynnu ar brawf modd
- Lwfans Cyflogaeth a Chymorth sy'n dibynnu ar brawf modd
- Cymhorthdal Incwm
- Credyd Pensiwn

Bydd angen i chi hefyd fod wedi ennill llai na £2,600 yn y 6 mis cyn eich cais. £3,600 yw'r ffigur os ydych chi'n gwpwl.

Ni allwch gael blaenswm cyllidebu os ydych chi neu'ch partner yn dal i dalu blaenswm cyllidebu blaenorol.'

I wirio faint y gallech ei gael ewch i www.citizensadvice.org.uk/cymraeg/Budd-daliadau/credyd-cynhwysol/pan-fyddwch-yn-cael-credyd-cynhwysol/cael-blaenswm-cyllidebu-credyd-cynhwysol/ (gwybodaeth uchod hefyd wedi'i chymryd o'r dudalen we)

# Gwiriwch pa fuddion sydd gennych hawl iddyn nhw

Os nad ydych yn siŵr a ydych yn hawlio'r holl fudd-daliadau mae gennych hawl iddynt, yna gallwch ddefnyddio cyfrifiannell budd-dal fel yr un ar wefan Step Change, Mae Budd-daliadau fel arfer ar gael os:

- Rydych chi allan o waith
- Mae gennych chi blant
- Rydych yn derbyn incwm isel
- Rydych yn sâl neu'n anabl

Sganiwch y cod QR gyferbyn i'w gymryd i'r Cyfrifiannell budd-dal Step Change neu ewch i stepchange.entitledto.co.uk/home/start

Free Help and Information • Impartial • Confidential

Mae Cyngor Canolbarth Cymru yn cynnig cyngor ar unrhyw faterion ariannol neu ddyledion sydd gennych, gan gynnwys problemau budd-dal lles, anghydfodau cyflogaeth, a chwynion defnyddwyr. Ar agor ar ddydd Llun, dydd Mercher a dydd Gwener rhwng 10:30 a 2:30. Ffoniwch 01654 700192 neu ewch i advicemidwales.org.uk/

Mae Cyngor ar Bopeth Powys yn darparu cyngor, annibynnol, cyfrinachol a diduedd am ddim i bawb ar eu hawliau a'u cyfrifoldebau, ar bynciau fel Budd-daliadau, Dyledion, Credyd Cynhwysol, cyngor Ynni, Cyngor Defnyddwyr a rheoli eich arian. Cysylltwch â ni drwy ffonio 0345 6018421 dydd Mawrth, dydd Mercher a dydd Iau 9am - 3pm neu ewch i'w gwefan www.powyscitizensadvice.org.uk

Arweiniad am ddim ar Fudd-daliadau, Teulu a gofal, trafferthion arian, cynilion, arian bob dydd, cartrefi, pensiynau, ymddeoliad a gwaith. Cysylltwch â nhw ar-lein ar eu gwefan www.moneyhelper.org.uk/en/contact-us neu drwy un o'u llinellau cymorth pwnc.

Elusen dyled arbenigol sy'n cynnig cyngor cyfrinachol am ddim ar unrhyw agwedd ar ddyled. Ffoniwch am DDIM ar 0800 043 40 50 o ddydd Llun i ddydd Gwener rhwng 8am a 6pm neu ewch i'w gwefan www.debtadvicefoundation.org

# Tîm Cyngor Ariannol Powys

Gall Tîm Cyngor Ariannol Powys gynnig amrywiaeth o gyngor a chymorth ariannol ar naill ai dros y ffôn neu drwy apwyntiad personol gartref neu Swyddfa leol eich Cyngor neu'ch cymuned i'ch helpu gyda: ar sicrhau eich bod yn cael cymaint o incwm ag y gallwch, cymorth ar wneud cais am fudd-daliadau, grantiau lles, cyngor ar eich hawliau a'ch cefnogaeth barhaus, rheoli cost tanwydd a gwresogi, help i reoli eich sefyllfa ddyledion a chyllidebu. Gofynnwch am gyngor ariannol ar-lein drwy en.powys.gov.uk/moneyadvice

Mae Step Change yn cynnig cyngor am ddim ar ddyledion hyblyg sy'n seiliedig ar asesiad cynhwysfawr o'ch sefyllfa. Yna maen nhw'n rhoi cymorth a chefnogaeth ymarferol am ba hyd bynnag y mae ei angen. Gwasanaeth cynghori ar-lein am ddyledion ar gael 24 awr y dydd, 365 diwrnod y flwyddyn neu ffonio 0800 138 1111 o ddydd Llun i ddydd Gwener 8am i 8pm a dydd Sadwrn 8am i 4pm, neu ewch i'w gwefan www.stepchange.org

Mae'r Llinell Ddyled Genedlaethol (National Debtline) yn elusen annibynnol sy'n rhoi cyngor am ddyledion. Defnyddiwch eu teclyn ar-lein i gael cymorth ar-lein nawr www.nationaldebtline.org Gallwch gael sgwrs dros y we gyda chynghorydd, o ddydd Llun i ddydd Gwener 9am - 8pm a dydd Sadwrn 9:30 am - 1pm, neu ffoniwch ar 0808 808 4000, o ddydd Llun i ddydd Gwener 9am – 8pm a dydd Sadwrn 9:30 am - 1pm.

Mae Shelter Cymru yn cynnig gwybodaeth, cyngor a chymorth ar bynciau fel digartrefedd, dyled, dod o hyd i le i fyw, talu am dai, rhentu, troi allan, morgeisi, adfeddiannu, arian, atgyweiriadau ac amodau gwael, a theuluoedd a pherthnasoedd. Ffoniwch linell gymorth frys Shelter Cymru ar 08000 495 495 (9.30am – 4.00pm o ddydd Llun i ddydd Gwener), defnyddiwch eu gwe-sgwrs neu ewch i'w gwefan i gael cyngor ac adnoddau.

## Simple Energy Advice
GOVERNMENT ENDORSED ADVICE

Cyngor diduedd ac annibynnol i'ch helpu i leihau eich biliau ynni, gwneud eich cartref yn gynhesach, cynllunio gwelliannau i'r cartref a gwneud eich tŷ yn fwy gwyrdd. Ewch i'w gwefan www.simpleenergyadvice.org.uk neu ffoniwch 0800 444202 dydd Llun i ddydd Gwener: 8am tan 8pm, dydd Sadwrn a dydd Sul: 9am to 5pm

## Nyth Nest
Gwneud Cymru'n Glyd
Making Wales Cosy

Mae Cartrefi Clyd Llywodraeth Cymru, sy'n cynnwys cynllun Nyth, yn darparu cyllid ar gyfer gwella effeithlonrwydd ynni i aelwydydd incwm isel a'r rhai sy'n byw mewn cymunedau difreintiedig ledled Cymru. Mae'n cefnogi ymrwymiadau Llywodraeth Cymru i leihau newid hinsawdd, yn helpu i gael gwared ar dlodi tanwydd, ac yn hybu datblygiad economaidd ac adfywio yng Nghymru. Os ydych chi'n poeni am eich biliau ynni, ffoniwch ni i siarad ag un o'n cynghorwyr cyfeillgar. Gallant gynnig cyngor diduedd am ddim ar arbed ynni a dŵr, rheoli arian, gan sicrhau eich bod ar y tariff ynni a dŵr gorau, ac a oes gennych hawl i unrhyw fudd-daliadau i hybu eich incwm
Ffoniwch Radffôn 0808 808 2244 neu gofynnwch am alwad yn ôl gan ddefnyddio eu ffurflen ar-lein sef: nest.gov.wales/how-can-nest-help/
Mae Nyth hefyd yn cynnig gwelliannau effeithlonrwydd ynni cartref am ddim. Gallech fod yn gymwys i dderbyn gwelliannau effeithlonrwydd ynni yn y cartref heb unrhyw gost i chi, os ydych yn berchen ar eich cartref eich hun neu'n rhentu gan landlord preifat (nid Cyngor neu Gymdeithas Tai), os yw eich cartref yn aneffeithlon o ran ynni ac yn ddrud i'w gynhesu, os ydych chi neu rywun rydych chi'n byw gyda ef/hi yn derbyn budd-dal sy'n destun prawf modd, NEU os oes arno/arni gyflwr resbiradol cronig, cyflwr cylchrediad neu gyflwr iechyd meddwl a’i incwm islaw trothwyon penodol. Am fanylion llawn ac i wneud cais ewch i wefan nest.gov.wales/how-can-nest-help/

## energy saving trust

Mae'r Ymddiriedolaeth Arbed Ynni yn darparu cyngor a chymorth, ar-lein ar effeithlonrwydd ynni yn y cartref, byw'n gynaliadwy, trafnidiaeth carbon isel, ynni adnewyddadwy, arloesi ac ynni cymunedol i hyrwyddo trawsnewid cyfiawn i gymdeithas ddi-garbon. Ewch i'r wefan energysavingtrust.org.uk am ragor o wybodaeth.

## Cronfeydd a grantiau caledi

Mae yna hefyd gronfeydd caledi penodol i wahanol sectorau a grantiau eraill y gallech gael mynediad atynt, gan ddibynnu ar eich amgylchiadau. I ddarganfod a ydych yn gymwys am unrhyw grantiau ychwanegol ewch i grants-search.turn2us.org.uk gofynnir i chi lenwi holiadur byr, cofiwch ddewis y categorïau perthnasol yn yr adran 'Ychwanegu mwy o fanylion', i ddod o hyd i grantiau sy'n berthnasol i'ch amgylchiadau presennol. Gallwch hefyd sganio'r cod QR isod i fynd â chi i'r offeryn chwilio grant ar wefan Turn2Us.



Powys

# Cael trafferth rhoi bwyd ar y bwrdd?



**Peidiwch â llwgu, cysylltwch â Banc Bwyd yn eich ardal leol, bydd yn gallu darparu parsel bwyd i chi i helpu i fwydo eich hun a'ch teulu.**
**Y Trallwng: 01938 536 379**
**Llanidloes: 08458 457 555**
**Machynlleth : 07983 715 162**
**Y Drenewydd: 01686 610 340**
**Rhaeadr Gwy: 01597 810 921**
**Llandrindod: 07519 839 189**
**Aberhonddu: 01874 611 723**
**Tref-y-clawdd a Dwyrain Maesyfed: 07731 524 058**
**Ystradgynlais/ Ystalyfera : 07923 986 379**
**Ystradgynlais: 01639 845 475**
**Y Drenewydd, Aberhonddu a Llanfair-ym-Muallt : 07955 518 669**

# Bwyta'n Iach ar Gyllideb

**'Chwiliwch am gynigion arbennig ar gynhyrchion oes silff hir fel pasta, reis a nwdls sych, ffa wedi'u sychu neu mewn tun, tomatos tun, passata, a grawnfwydydd. Gallwch defnyddio'r rhain i swmpu eich prydau a gwneud iddynt fynd ymhellach.'**
**'Prynwch doriadau rhatach o gig fel coesau cyw iâr yn lle'r frest. Mae iâr gyfan yn gallu bod yn werth da, yn enwedig os ydych chi'n ei defnyddio am fwy nag un pryd o fwyd. Mae briwgig (mins) hefyd yn gynhwysyn poblogaidd, amlbwrpas a rhad'**
**'Gall pysgod olewog fel sardîns ac eog fod yn rhatach na phrynu pysgod ffres. Maent yn uchel mewn braster omega-3 sy'n gallu helpu i gadw'r galon yn iach. Maen nhw hefyd yn hawdd eu paratoi ac mae ganddynt oes silff hir. Dewiswch y rhai mewn dŵr ffynnon er mwyn cadw'r cynnwys halen mor isel â phosib. Mae pysgod wedi'u rhewi yn aml yn werth da iawn a gellir eu hychwanegu at amryw o brydau.'**
**'Chwiliwch yn yr adran ffrwythau a llysiau mewn tuniau neu wedi'u rhewi am eitemau rhatach. Mae llysiau wedi'u rhewi yn tueddu i fod yn rhatach na rhai ffres, maen nhw'n cyfrif tuag at eich 5-y-dydd ac yn rhewi maetholion fel bod rhai llysiau wedi'u rhewi yn gallu darparu mwy o faetholion penodol na rhai ffres. Gallwch eu defnyddio pan fyddwch chi eisiau heb iddyn nhw bydru, sy'n torri lawr ar wastraff. Cofiwch wirio cyfresi rhad a ystod brandiau'r archfarchnadoedd eu hunain - mae'r rhain yn aml yn rhatach nag eitemau â brandiau amlwg.'**
**'Mae'r cyfresi 'economi' lawer yn rhatach ar gyfer bara, a phasta, reis a nwdls sych fel arfer ac efallai nad oes llawer o wahaniaeth bob amser yn eu blas.'**
**'Gall cynnyrch fel llaeth a chaws gael ei rewi fel y gallwch fanteisio ar gynigion arbennig a storio unrhyw rai ychwanegol rydych chi'n ei brynu yn y rhewgell.'**
**"Wrth fwyta ar gyllideb, mae bwydydd sylfaenol fel bara, tatws, reis a pasta yn gyffredinol yn werth da iawn am arian ac yn rhan faethlon o ddiet iach. Mae tatws trwy'u crwyn yn wych fel pryd rhad, iach sy'n eich llenwi a gallwch arbrofi gyda'ch hoff lenwadau - efallai trwy ddefnyddio saws pastaneu stiw dros ben. Os ydych yn pobi tatws yn y ffwrn, yna fe allech chi wneud y gorau o ddefnyddio'r popty ac choginio nifer o datws ychwanegol. Yna gallwch gadw'r rhain am ychydig ddyddiau yn yr oergell (neu'n hirach yn y rhewgell) a'u gosod yn y popty meicrodon i'w cynhesu am bryd cyflym dro arall. Mae reis a pasta yn gynhwysion cwpwrdd gwych a rhad y gallwch eu gweini'n gynnes gyda sawsiau, cyri a stiw neu eu defnyddio'n oer fel sylfaen ar gyfer salad, a all fod yn ffordd dda o ddefnyddio unrhyw basta neu reis dros ben os yw eisoes wedi'i goginio. '**
**Gwybodaeth o www.nutrition.org.uk/putting-it-into-practice/ make-healthier-choices /healthy-eating-on-a-budget/**

# Y cynllun Cychwyn Iach



Os ydych chi'n fwy na 10 wythnos yn feichiog neu os oes gennych blentyn o dan 4 oed, efallai y bydd gennych hawl i gael cymorth i brynu bwyd iach a llaeth.
Os ydych yn gymwys, anfonir cerdyn Cychwyn Iach atoch gydag arian arno y gallwch ei ddefnyddio mewn rhai siopau yn y DU.
Bydd y Llywodraeth yn ychwanegu eich budd-dal ar y cerdyn hwn bob 4 wythnos.
Gallwch ddefnyddio eich cerdyn i brynu:

- llaeth buwch hylif plaen
- ffrwythau a llysiau ffres; mewn tun neu wedi'u rhewi
- ffa ffres, sych, neu mewn tun
- llaeth fformiwla i fabanod yn seiliedig ar laeth buwch

Gallwch hefyd ddefnyddio eich cerdyn i gasglu:

- Fitaminau Cychwyn Iach – mae'r rhain yn eich cefnogi chi yn ystod beichiogrwydd a bwydo ar y fron
- Diferion fitamin i fabanod a phlant bach - mae'r rhain yn addas o enedigaeth i 4 oed

I wirio'r meini prawf cymhwysedd ac i wneud cais, ewch i www.healthystart.nhs.uk/how-to-apply/

# Prydau Ysgol am Ddim

'I gael prydau ysgol am ddim yn ysgolion Powys, rhaid i'r rhieni/gofalwyr fod yn derbyn un o'r canlynol:

1. Cymhorthdal Incwm
2. Lwfans Ceisio Gwaith (yn seiliedig ar incwm)
3. Os ydych yn Geisiwr Lloches ac yn cael cymorth dan y Ddeddf Lloches a Mewnfudo.
4. Credyd Gwarantedig Pensiwn y Wladwriaeth
5. Lwfans Cyflogaeth a Chymorth - yn seiliedig ar incwm.
6. Credyd Treth Plant - cyn belled nad ydych yn cael swm am ofal plant wedi'i dalu gyda'ch Credyd Treth plant, neu'n derbyn Credyd Treth Gwaith. Mae'n rhaid i adran Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi fod wedi gweithio allan bod incwm eich aelwyd yn £16,190 y flwyddyn neu'n llai.
7. Credyd Cynhwysol - cyhyd bod eich enillion blynyddol net yn £7400 neu'n llai.

Gallwch hefyd gael prydau ysgol am ddim os oes gennych hawl i daliad Credyd Treth Gwaith estynedig (run-on) am bedair wythnos ar ôl gorffen gweithio neu os ydych yn lleihau eich oriau gwaith i lai na 16 awr yr wythnos.'
Os ydych yn bodloni'r meini prawf uchod, gallwch wneud cais am brydau ysgol am ddim drwy lenwi ffurflen ar-lein yn cy.powys.gov.uk/article/11909/Prydau-Ysgol-am-Ddim

O fis Medi 2022 ymlaen, bydd prydau ysgol am ddim i bob plentyn oed Derbyn. Gan weithio gydag ysgolion ac awdurdodau lleol, bydd Llywodraeth Cymru yn cynllunio ac yn paratoi'r seilwaith sydd ei angen er mwyn i bob disgybl oedran cynradd dderbyn prydau ysgol am ddim erbyn mis Medi 2024.





Powys

# Grantiau dillad ysgolion





'Telir y grant i'r rhai hynny sydd â hawl i brydau ysgol am ddim yn unig. Ni fydd disgyblion sy'n derbyn prydau ysgol am ddim oherwydd mesurau amddiffyn wrth bontio neu'r cynllun prydau ysgol am ddim i bawb (o fis Medi 2022) yn gallu hawlio'r arian hwn. Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu £100 yn ychwanegol fesul dysgwr eleni. Cytunwyd ar y cyllid ychwanegol hwn am y flwyddyn academaidd 2022/23 yn unig.
Dyma'r symiau £225 fesul dysgwr cymwys. Bydd disgyblion sy'n dechrau Blwyddyn 7 ym mis Medi 2022 yn gallu hawlio £300 y pen.
Bydd staff Powys yn archwilio'r gofrestr o ddysgwyr sy'n derbyn prydau ysgol am ddim i gadarnhau a yw pob plentyn yn gallu hawlio'r arian grant. Bydd ceisiadau newydd am brydau ysgol am ddim hefyd yn cael eu gwirio.
Os yw eich plentyn yn symud i ysgol tu allan i Bowys, dylech wneud cais i'r awdurdod sy'n gyfrifol am yr ysgol honno.
', 'Bydd y grant ar gyfer y flwyddyn academaidd o fis Medi 2022 tan fis Mehefin 2023 yn agor ar 21 Gorffennaf 2022.' Mae Cyngor Sir Powys wedi ysgrifennu atoch chi os oeddech yn gymwys i wneud cais. You will need to provide the pupil number reference provided to you in the letter in the application form'. 'Os ydych chi'n meddwl eich bod chi'n gymwys am Brydau Ysgol Am Ddim ond nad ydych yn eu hawlio ar hyn o bryd, cysylltwch â ni.' 01597827462
'TBydd y gronfa'n talu am wisg ysgol, dillad arall sy'n cael ei wisgo yn yr ysgol megis dillad chwaraeon, offer ar gyfer tripiau tu allan i'r ysgol (gan gynnwys dysgu yn yr awyr agored) ac offer ar gyfer gweithgareddau o fewn y cwricwlwm megis dylunio a thechnoleg.
Gallwch dderbyn un grant fesul blwyddyn academaidd'
cy.powys.gov.uk/article/11908/Grantiau-dillad-ysgolion

# Banciau babanod



Os ydych yn cael trafferth fforddio i ddillad i'ch babi/plentyn yna mae elusennau / sefydliadau all eich cefnogi, os nad ydych yn siŵr ble i droi, cysylltwch â'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Cyngor Sir Powys trwy anfon e-bost fis@powys.gov.uk. Byddant yn eich cefnogi i ddod o hyd i wasanaethau yn eich ardal.

# Grant Mamolaeth Cychwyn Cadarn



'"Gallech gael taliad untro o £500 i helpu tuag at gostau cael plentyn. Gelwir hyn yn Grant Mamolaeth Cychwyn Cadarn
Fel arfer, rydych yn gymwys i dderbyn y grant os bydd y ddau o'r canlynol yn berthnasol:

- rydych chi'n disgwyl eich plentyn cyntaf, neu rydych chi'n disgwyl genedigaeth luosog (fel efeilliaid) ac mae gennych chi blant eisoes
- os ydych chi neu'ch partner eisoes yn derbyn buddion penodol

Mae'n rhaid i chi hawlio'r grant o fewn 11 wythnos i'r dyddiad y mae'r babi i fod i gyrraedd neu o fewn 6 mis ar ôl geni'r babi. Does dim rhaid i chi dalu'r grant yn ôl ac ni fydd yn effeithio ar eich budd-daliadau eraill na chredydau treth.'
I wirio beth yw eich cymhwysedd ar gyfer y grant hwn gallwch fynd i
www.gov.uk/sure-start-maternity-grant/eligibility

# Help gyda chostau gofal plant



## Dechrau'n Deg

Mae Dechrau'n Deg yn cyflwyno gofal plant o ansawdd a gynigir i rieni pob plentyn 2-3 blwydd oed cymwys am 2 a hanner awr y diwrnod, 5 diwrnod yr wythnos am 39 wythnos. Yn ychwanegol at hyn, dylid cael o leiaf 15 sesiwn o ddarpariaeth ar gyfer y teulu yn ystod y gwyliau ysgol.
Rhaid i chi fyw o fewn ardal Dechrau'n Deg i dderbyn yr arian hwn.
Gwiriwch eich cod post ar cy.powys.gov.uk/article/1483/Dechraun-Deg

## Help i fyfyrwyr

Os ydych yn mynychu cwrs yn llawn neu'n rhan amser ac yn cael cyllid i fyfyriwr israddedig sy'n dibynnu ar incwm eich cartref a bod gennych o leiaf un plentyn dan 15 oed sy'n dibynnu arnoch yn ariannol, neu blentyn dan 17 oed os oes ganddynt anghenion addysgol arbennig, efallai bod gennych hawl i dderbyn grant gofal plant a'r lwfans dysgu i rieni gyda Chyllid Myfyrwyr Cymru. Gwiriwch y maes prawf cymhwyster llawn yma
www.cyllidmyfyrwyrcymru.co.uk/cyllid-israddedig/israddedig-llawn-amser/myfyriwr-cymreig/beth-sydd-ar-gael/grant-gofal-plant/

## Elfen gofal plant y Credyd Cynhwysol

Gallwch hawlio nôl hyd at 85% o'ch costau gofal plant os ydych yn gymwys am Gredyd Cynhwysol.
Fel arfer, fe fydd angen i chi (a'ch partner os ydych yn byw gyda hwy) naill ai:

- fod yn gweithio – does dim ots faint o oriau ydych chi neu'ch partner yn gweithio
- cael cynnig o swydd

Am wybodaeth lawn ar elfen gofal plant y Credyd Cynhwysol, edrychwch ar
www.gov.uk/help-with-childcare-costs/universal-credit

## Gofal plant di-dreth

Pan fyddwch yn cofrestru am gyfrif gofal plant di-dreth, fe fydd y llywodraeth yn talu £2 am bob £8 y byddwch yn ei dalu i mewn er mwyn ei ddefnyddio i dalu eich darparwr gofal plant. Gallwch gael hyd at £500 pob 3 mis (hyd at £2,000 y flwyddyn) ar gyfer pob un o'ch plant i helpu gyda chostau gofal plant. Mae hyn yn cynyddu i £1,000 pob 3 mis os yw plentyn yn anabl (hyd at £4,000 y flwyddyn). NODER – Bydd eich credydau treth yn dod i ben ar unwaith os ydych yn ymgeisio'n llwyddiannus am Ofal Plant Di-dreth. Bydd rhaid i chi ganslo eich Credyd Cynhwysol a thocynnau gofal plant hefyd. Gwiriwch eich bod ar eich ennill trwy ddefnyddio'r cyfrifiannell yma
www.gov.uk/childcare-calculator

## 10 awr o addysg am ddim i bob plentyn 3 a 4 blwydd oed

Mae hawl gan bob plentyn i dderbyn hyd at bum tymor o addysg blynyddoedd cynnar rhan amser cyn dechrau addysg orfodol. Cynigir hyn mewn cyfuniad o leoliadau a ariennir, gan gynnwys Grwpiau Chwarae, Cylchoedd Meithrin, ysgolion a meithrinfeydd dydd.
Os yw eich plentyn yn 3 neu 4 blwydd oed ac nad ydych wedi ymgeisio eto, yna gwnewch hynny ar unwaith o dan gais hwyr.
I ymgeisio edrychwch ar
cy.powys.gov.uk/article/8868/Cais-am-Leoliad-Cyn-Ysgol-3-a-4-oed

## Cynnig Gofal Plant i Gymru – Cyllid am 20 awr i blant 3 a 4 blwydd oed

Mae Cynnig Gofal Plant Cymru Llywodraeth Cymru yn golygu y gall y rhan fwyaf o rieni sy'n gweithio sydd â phlant 3 i 4 oed hawlio cyllid tuag at gost gofal plant. Mae'n bosibl y bydd rhieni sydd mewn addysg neu hyfforddiant hefyd yn gallu elwa o'r cynnig gofal plant. I wirio eich cymhwyster ac i ymgeisio gallwch edrych ar
cy.powys.gov.uk/article/6355/Pwy-syn-gymwys-am-y-cynnig

Powys